**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 20 MEDI 2023 YN NHŶ HASTINGS A THRWY MS TEAMS**

**Yn bresennol:** Mrs Bev Smith (Cadeirydd) trwy Teams; Mrs Dianne Bevan; Mr Frank Cuthbert; Mr Michael Imperato trwy Teams; Ms Ginger Wiegand.

**Swyddogion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Tom Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid) trwy Teams; Mr Paul Elliot (Swyddog Arolygon); Miss Caitlin Lowry (Swyddog Cymorth Tîm); Mr Christian Lovatt (Cymorth Tîm).

**Ymddiheuriadau:** Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Prosiect)

**Amser Dechrau: 10:20**
**Amser Gorffen: 12:35**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau Buddiannau.

## 2. Gwybodaeth gan y Cadeirydd

2.1. Diolchodd y Cadeirydd i staff y Comisiwn am eu cymorth yng Nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). **Nodwyd** y cafwyd trafodaethau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid.

2.2. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth i'r Comisiwn am gynnig adroddiad drafft y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) ar gyfer 2024/25 a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

**4.1.** **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad gan nodi unrhyw faterion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a rhoddwyd diweddariad ar gynnydd y materion canlynol:

**4.2.** **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 1 cais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 14 Gorffennaf 2023 a 12 Medi 2023.

**4.3.** **(Mater 2) Nodwyd** bod Rhondda Cynon Taf yn bwriadu cynnal Arolwg Cymunedol gyda chymorth a chyngor gan y Comisiwn.

**4.4.** **(Mater 3) Nodwyd** y bydd y mater hwn yn cael ei drafod o dan eitem 6.

**4.5.** **(Mater 4) Nodwyd** na chafwyd ymateb o hyd gan Lywodraeth Cymru (LIC). Bydd angen i'r Comisiwn bellach ymestyn y brydles ar gyfer eiddo Hastings am flwyddyn gyda'r un cyfnod rhybudd â'r estyniad presennol. **Cytunwyd** y bydd y Cadeirydd yn anfon neges e-bost at LIC.

**4.6.** **(Mater 5) Nodwyd** bod canfyddiadau cychwynnol wedi cael eu rhannu yng nghynhadledd CLILC. Nodwyd y bydd ORS yn rhannu canfyddiadau manwl gyda'r Comisiwn yng nghyfarfod mis Hydref neu fis Tachwedd hat.

**4.7.** **(Mater 6) Nodwyd** bod Archwilio Cymru yn ymgynghori ar eu ffioedd ar gyfer 2024-25 ar hyn o bryd.

**4.8.** **(Mater 7) Nodwyd** bod y broses recriwtio ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) yn parhau ac y bydd yn cau ar 5 Hydref 2023.

## 5. Y Rhaglen Bontio (i'w thrafod)

**5.1.** **Nodwyd** bod hyn wedi cael ei ohirio tan 11 Hydref.

## 6. Y Flaenraglen Waith

**6.1.** **Nodwyd** bod Roger Ashton-Winter o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) wedi ymuno â CFfDLC dros dro i gefnogi'r Prif Weithredwr.

**6.2.** **Nodwyd** bod papur llywodraethu wedi cael ei lunio i amlinellu'r angen am swydd-ddisgrifiad unigol ar gyfer Comisiynydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC).

**6.3.** **Nodwyd** bod cyfarfod strwythur staff wedi cael ei gynnal gyda LIC a'r IRP ac y bydd gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i adlewyrchu canlyniadau'r trafodaethau.

**6.4.** **Nodwyd** y dylai llinell amser ar gyfer terfynu cyfnod comisiynwyr yn eu swydd gael ei gosod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod 11 Hydref.

**Gweithredu:** Mabwysiadu llinell amser ar gyfer cyfnod comisiynwyr yn eu swydd yng nghyfarfod mis Hydref.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

**7.1.** **Nodwyd** bod gorwariant o ran costau staff o ganlyniad i daliad 'costau byw' untro LlC.

**7.2.** **Nodwyd** bod tanwariant o ran ffioedd aelodau gan na chynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Ebrill a mis Awst.

**7.3.** **Nodwyd** bod y Post Brenhinol wedi rhoi ad-daliad i'r Comisiwn am y peiriant ffrancio darfodedig.

**7.4.** **Nodwyd** bod sawl gorwariant yn deillio o'r ffaith bod y Comisiwn yn aros i adennill costau gan awdurdodau lleol ar gyfer yr Arolygon Cymunedol a gynhaliwyd.

## 8. Rheoli Risg

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Rheoli Risg dyddiedig 20 Medi gan y Rheolwr Cyllid. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd angen unrhyw newidiadau i'r gofrestr bresennol.

## 9. Adroddiad cyfarfod yr ARAC ar 25 Gorffennaf

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Cyfarfod yr ARAC a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf gan y Rheolwr Cyllid.

**9.2.** Trafododd y Comisiwn rôl yr ARAC wrth symud ymlaen yn ogystal â Diwygio Etholiadol. Roedd y Comisiwn o'r farn y byddai angen asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig.

**9.3.** **Nodwyd** y byddai oedi wrth archwilio'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2022-23 o ganlyniad i ofynion archwilio ychwanegol a osodwyd ar Archwilio Cymru.

## 10. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Terfynol 2022-23

**10.1.** **Nododd** y Comisiwn fod yr archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23 yn parhau o hyd ac amcangyfrifwyd y byddai'r archwiliad yn cael ei gwblhau yn gynnar ym mis Hydref.

## 11. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad Cynnydd Arolygon dyddiedig 12 Medi gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.

**11.2.** **Nodwyd** y bydd yr Opsiynau Terfynol ar gyfer Bro Morgannwg yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Rhagfyr neu fis Ionawr.

**11.3.** **Nodwyd** y disgwylir i Adroddiad Cynigion Drafft Caerffili gael ei gyhoeddi ar 10 Hydref ac y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 4 Rhagfyr.

**11.4.** Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r Swyddog Arolygon yn cyflwyno'r opsiynau ar gyfer arolwg Ceredigion i'r Comisiwn yng nghyfarfod heddiw. **Nodwyd** y bydd Adroddiad Cynigion Drafft yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Hydref.

**11.5.** **Nodwyd** y bydd arolwg Abertawe yn dechrau ar 25 Medi. Yna, bydd y cyfnod ymgynghori cychwynnol yn dod i ben ar 19 Tachwedd.

**11.6.** **Nodwyd** bod arolwg Sir Benfro wedi cael ei oedi tan 23 Hydref ac y bydd y cyfnod ymgynghori cychwynnol yn dod i ben ar 17 Rhagfyr. Mae'r Comisiwn yn aros am bolisi maint y cyngor o hyd.

**11.7.** **Nodwyd** bod y Cadeirydd yn cytuno ar y gwersi a ddysgwyd a'r cofnod arddull ac nad yw'n gweld newidiadau i'r gofrestr risg.

**12. Arolwg Cymunedol Ceredigion**

**12.1.** Wrth gynnal arolygon yn y dyfodol, argymhellodd y Comisiwn y dylid cytuno gydag awdurdodau lleol i wneud Adran 21 ac Adran 31 er mwyn osgoi unrhyw faterion cyfreithiol.

**12.2.** Datgelodd Mrs Dianne Bevan fuddiant yng Ngheredigion oherwydd bod aelodau agos o'i theulu'n byw yn un o'r cymunedau sy'n cael eu harolygu yng Ngheredigion.

**12.3.** Rhoddwyd ystyriaeth i Arolwg Cymunedol Ceredigion – Papur Opsiynau Drafft dyddiedig 12 Medi 2023 gan y Swyddog Arolygon.

**12.4.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Aberystwyth. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.5.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Aberaeron. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.6.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Aberteifi. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.7.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanbedr Pont Steffan. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.8.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ceinewydd a Llanllwchaearn. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 2 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.9.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Tregaron. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.10.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llandysul. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.11.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Aber-porth. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.12.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Beulah. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.13.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Borth. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.14.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Dyffryn Arth. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.15.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llandyfrïog. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.16.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llangoedmor. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.17.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llansanffraid. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o'r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.18.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Melindwr. Dewisodd y Comisiwn Opswn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.19.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Blaenrheidol a Phontarfynach. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.20.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ceulan a Maesmawr, Llancynfeyn ac Ysgubor y Coed. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.21.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Genau’r Glyn a Thirymynach. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.22.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Henfynyw a Llannarth. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.23.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanddewibrefi, Llanfair Clydogau a Llangybi. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.24.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llandysiliogogo a Throed-yr-aur. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.25.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanfarian a Llanrhystud. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.26.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanfihangel Ystrad a Llanwnnen. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.27.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llangrannog a Phenbryn. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.28.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llanilar a Thrawsgoed. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.29.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.30.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Ciliau Aeron a Nantcwnlle. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.31.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Llangeitho, Lledrod a Llangwy. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.32.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol Faenor a Llanbadarn Fawr. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.33.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r opsiynau ar gyfer Arolwg Cymunedol y Ferwig. Dewisodd y Comisiwn Opsiwn 1 o’r cynigion drafft (cyfeiriwch at dempledi Safon Benderfynu i gael rhagor o wybodaeth).

**12.34.** **Nodwyd** bod y Comisiwn yn diolch i’r Swyddog Arolygon am ei waith ar Arolwg Cymunedol Ceredigion.

**Gweithredu:** Cysylltu â Cheredigion ynglŷn â newid i’r boblogaeth yng Ngheinewydd ar gyfer Arolwg Cymunedol.

## 13. Calendr Digwyddiadau

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Calendr Digwyddiadau.

## 14. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

**14.1.** Ni nodwyd unrhyw fater arall perthnasol.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 25 Hydref 2023